Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Busnes**

# Diwygio Rheolau Sefydlog: Trothwyon Rheolau Sefydlog

Chwefror 2026

Yn unol â Rheol Sefydlog 11.7(iv), y Pwyllgor Busnes sy'n gyfrifol am wneud argymhellion ar arferion a gweithdrefnau cyffredinol y Senedd, gan gynnwys cynigion ar gyfer ail-wneud neu ddiwygio'r Rheolau Sefydlog.

Mae'r adroddiad hwn yn argymell diwygiadau i nifer o Reolau Sefydlog sy'n pennu trothwy Aelodau y mae rhaid ei fodloni at ddiben penodol. Mae'r newidiadau arfaethedig yn adlewyrchu ystyriaeth y Pwyllgor Busnes o'r argymhellion a wnaed gan Bwyllgor Senedd y Dyfodol yn ei adroddiad, sef Adolygiad o'r Trothwyon yn y Rheolau Sefydlog.

Cynigir y newidiadau hyn wrth ddisgwyl y cynnydd sydd ar ddod yn nifer yr Aelodau sy'n eistedd yn y Senedd, o 60 (ar hyn o bryd) i 96 (o etholiad y Senedd sydd i'w gynnal ym mis Mai 2026). Os cânt eu derbyn, bydd y newidiadau arfaethedig yn dod i rym ar ddechrau'r Senedd nesaf.

Gwahoddir y Senedd i gymeradwyo'r cynigion i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog fel yn Atodiad A. Mae'r Rheolau Sefydlog diwygiedig, os cânt eu cymeradwyo, yn Atodiad B.

# Cynnwys

**1. Cefndir** .......... 3

**2. Ystyriaeth y Pwyllgor Busnes** .......... 3

**3. Amseru** .......... 4

**4. Penderfyniad** .......... 4

**Atodiad A: Newidiadau arfaethedig i Reolau Sefydlog a nodiadau esboniadol** .......... 6

**Atodiad B: Rheolau Sefydlog fel y'u diwygiwyd** .......... 11

# 1. Cefndir

**1.** Mae adran 1 o Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 ("Deddf 2024") yn diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006") i ddarparu ar gyfer 16 o etholaethau'r Senedd, pob un â chwe sedd. Mae hyn yn golygu y bydd gan y Senedd 96 Aelod, ac eithrio mewn amgylchiadau pan fo un neu ragor o seddau yn y Senedd yn wag.

**2.** Ar 16 Hydref 2024, wrth ddisgwyl y newidiadau hyn, sefydlodd y Senedd Bwyllgor Senedd y Dyfodol[1] i drafod a chyflwyno adroddiadau ar y canlynol (ymhlith pethau eraill):

> *[…] trothwyon a bennir ar hyn o bryd yn y Rheolau Sefydlog ar gyfer nifer yr Aelodau sy'n ofynnol at wahanol ddibenion, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) ffurfio grwpiau gwleidyddol, diswyddo deiliaid swyddi, a chworwm.*[2]

**3.** Cyhoeddodd Pwyllgor Senedd y Dyfodol ei adroddiad, sef 'Adolygiad o'r Trothwyon yn y Rheolau Sefydlog' ar 28 Chwefror 2025, yn gwneud 14 o argymhellion yn ymdrin â materion megis nifer yr Aelodau sy'n ofynnol i: gyflwyno cynigion i gael gwared ar ddeiliaid swyddi, gofyn am ganu'r gloch cyn i bleidleisiau'r cyfarfod llawn gael eu cynnal, pennu'r trefniadau enwebu ac eilio ar gyfer etholiadau cadeiryddion pwyllgorau, a gofyn i'r Pwyllgor Busnes ystyried newidiadau i'r Rheolau Sefydlog.

# 2. Ystyriaeth y Pwyllgor Busnes

**4.** Ystyriodd y Pwyllgor Busnes y materion sy'n codi o adroddiad Pwyllgor Senedd y Dyfodol a'i argymhellion yn ei gyfarfodydd ar 19 Mehefin a 18 Medi 2025

**5.** Grwpiodd y Pwyllgor Busnes yr argymhellion yn dri chategori:

[1] Cadeiriwyd Pwyllgor Senedd y Dyfodol gan y Dirprwy Lywydd, ac roedd yn cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru a phob grŵp gwleidyddol yn y Senedd. Cynigiwyd cyfle i Aelodau nad oeddent yn aelodau o grwpiau gwleidyddol fynd i gyfarfodydd y Pwyllgor yn unol â Rheol Sefydlog 17.49.
[2] Mae gwybodaeth am Bwyllgor Senedd y Dyfodol ar gael ar dudalen we'r Pwyllgor.

- Argymhellion a oedd yn cynnig na ddylid newid trothwy presennol.[3] Derbyniodd y Pwyllgor Busnes yr argymhellion hyn a chytunodd i beidio â chynnig newidiadau.

- Argymhellion a oedd yn cynnig newid penodol i drothwy presennol. Derbyniodd y Pwyllgor Busnes yr argymhellion hyn a chytunodd i gynnig newidiadau fel y nodir yn yr adran penderfyniad o'r adroddiad hwn ac Atodiad A.

- Argymhellion ynglŷn â grwpiau a grwpiadau gwleidyddol, yr oedd Pwyllgor Senedd y Dyfodol wedi argymell y dylid newid mewn cysylltiad â hwy, ond nid oedd wedi pennu beth y dylai'r newid hwnnw fod. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y byddai'n ystyried y trothwyon hyn ar wahân yng nghyd-destun ei ystyriaeth o faterion ehangach sy'n ymwneud â threfnu busnes seneddol.

# 3. Amseru

**6.** Gan mai bwriad y newidiadau arfaethedig yw adlewyrchu'r cynnydd yn nifer yr Aelodau, cytunodd y Pwyllgor Busnes i gynnig y dylent ddod i rym ar ddechrau'r Seithfed Senedd.

# 4. Penderfyniad

**7.** Fel y nodwyd uchod, cytunodd y Pwyllgor Busnes i gynnig newidiadau i'r Rheolau Sefydlog er mwyn adlewyrchu argymhellion a wnaed gan Bwyllgor Senedd y Dyfodol. Mae'r newidiadau arfaethedig i'w gweld yn Atodiad A, ac maent yn ymwneud â'r canlynol:

- Mae Rheolau Sefydlog 6.26, 8.7 a 10.8 sy'n ei gwneud yn ofynnol y caiff cynigion i ddiswyddo'r Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd, Gweinidogion Cymru, neu ddeiliaid swyddi perthnasol eu cyflwyno gan o leiaf chwe Aelod er mwyn iddynt gael eu trafod. Mae'r Pwyllgor Busnes yn cynnig cynnydd ym mhob achos i o leiaf ddeg Aelod i gadw trothwy tua deg y cant o aelodaeth y Senedd;

- Rheol Sefydlog 12.44, sy'n ei gwneud yn ofynnol, os bydd o leiaf dri Aelod yn gofyn amdano, fod rhaid canu'r gloch cyn cynnal pleidlais yn y

[3] Argymhellion 6, 8, 11, 12 a 13.

cyfarfod llawn. Mae’r Pwyllgor Busnes yn cynnig cynnydd i o leiaf bum Aelod i gadw trothwy tua phump y cant o aelodaeth y Senedd;

- Rheol Sefydlog 17.2G, sy’n darparu mai dim ond os yw’r cadeirydd wedi’i ddyrannu i grŵp gwleidyddol â mwy nag 20 Aelod y mae angen eilydd ar enwebiadau ar gyfer ethol cadeiryddion pwyllgor. Mae’r Pwyllgor Busnes yn cynnig bod y cyfeiriad at faint y grŵp gwleidyddol yn cael ei ddileu, gyda’r canlyniad y bydd angen eilydd ar bob enwebiad ar gyfer ethol cadeiryddion pwyllgor; Yn ogystal, mae’r Pwyllgor Busnes yn cynnig dileu’r gofyniad bod rhaid i eilydd berthyn i’r un grŵp gwleidyddol â’r Aelod y mae’n eilio ei enwebiad.

- Mae Rheol Sefydlog 33.1, sy’n ei gwneud yn ofynnol i’r Pwyllgor Busnes, o fewn amser rhesymol, ystyried unrhyw gynnig a wneir iddo gan o leiaf chwe Aelod i ail-wneud neu ddiwygio’r Rheolau Sefydlog ac adrodd ar gynnig o’r fath. Mae’r Pwyllgor Busnes yn cynnig cynnydd i ddeg Aelod i gadw trothwy tua deg y cant o aelodaeth y Senedd.

**8.** I’w nodi, gwnaeth Pwyllgor Senedd y Dyfodol nifer o argymhellion a oedd yn awgrymu bod y Rheol Sefydlog bresennol/trothwy presennol yn aros fel y’i drafftiwyd ar hyn o bryd. O ganlyniad, wrth dderbyn yr argymhellion hynny, nid yw’r Pwyllgor Busnes yn gwneud cynnig cyfatebol.

**9.** Ar 18 Medi 2025, cytunodd y Pwyllgor Busnes yn ffurfiol i gynnig y newidiadau i’r Rheolau Sefydlog a amlinellir yn yr adroddiad hwn. Gwahoddir y Senedd i gymeradwyo'r Rheolau Sefydlog newydd arfaethedig yn Atodiad B.

# Atodiad A: Newidiadau arfaethedig i Reolau Sefydlog a nodiadau esboniadol

| **RHEOL SEFYDLOG 6 – Y Llywydd a'r Dirprwy** | |
|---|---|
| Ymddiswyddiad neu Ddiswyddiad y Llywydd neu'r Dirprwy | Cadw'r is-bennawd |
| 6.26 Os caiff cynnig:<br>(i) y dylid diswyddo'r Llywydd; neu<br>(ii) y dylid diswyddo'r Dirprwy,<br>ei gyflwyno gan o leiaf ddeg chwe Aelod, mae rhaid trefnu bod amser ar gael cyn gynted â phosibl i'r cynnig gael ei drafod; ac mae rhaid i'r ddadl honno gael ei chynnal beth bynnag o fewn pum diwrnod gwaith i'r cynnig gael ei gyflwyno. | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br>Byddai'r newid arfaethedig yn cynyddu isafswm yr Aelodau sy'n ofynnol i gyflwyno cynnig i ddiswyddo'r Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd er mwyn sbarduno'r gofyniad bod rhaid trefnu bod amser ar gael i'r cynnig gael ei drafod. Mae'r cynnydd arfaethedig o chwech i ddeg yn fras gymesur â'r cynnydd yn aelodaeth y Senedd. |
| **RHEOL SEFYDLOG 8 – Gweinidogion Cymru a Dirprwy Weinidogion Cymru** | |
| Ymddiswyddiad etc. Prif Weinidog Cymru neu Aelod arall o'r Llywodraeth | Cadw'r is-bennawd |

| | | |
|---|---|---|
| 8.7 | Os caiff cynnig nad oes gan Weinidogion Cymru hyder y Senedd mwyach ei gyflwyno gan o leiaf ddeg ~~chwe~~ Aelod, mae rhaid trefnu bod amser ar gael cyn gynted â phosibl i'r cynnig gael ei drafod; ac mae rhaid i'r ddadl honno gael ei chynnal beth bynnag o fewn pum diwrnod gwaith i'r cynnig gael ei gyflwyno. | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br><br>Byddai'r newid arfaethedig yn cynyddu isafswm yr Aelodau sy'n ofynnol i gyflwyno cynnig i ddiswyddo Gweinidogion Cymru er mwyn sbarduno'r gofyniad bod rhaid trefnu bod amser ar gael i'r cynnig gael ei drafod. Mae'r cynnydd arfaethedig o chwech i ddeg yn fras gymesur â'r cynnydd yn aelodaeth y Senedd. |
| **RHEOL SEFYDLOG 10 – Penodiadau etc. i Swydd Gyhoeddus** | | |
| Diswyddo | | Cadw'r is-bennawd |
| 10.8 | Os cyflwynir cynnig i ddiswyddo deiliad swydd berthnasol gan o leiaf ddeg ~~chwe~~ Aelod, mae rhaid trefnu bod amser ar gael cyn gynted â phosibl er mwyn trafod y cynnig; ac mae rhaid i'r ddadl honno gael ei chynnal beth bynnag o fewn pum diwrnod gwaith i'r cynnig gael ei gyflwyno. | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br><br>Byddai'r newid arfaethedig yn cynyddu isafswm yr Aelodau sy'n ofynnol i gyflwyno cynnig i ddiswyddo deiliad swydd berthnasol er mwyn sbarduno'r gofyniad bod rhaid trefnu bod amser ar gael i'r cynnig gael ei drafod. Mae'r cynnydd arfaethedig o chwech i ddeg yn fras gymesur â'r cynnydd yn aelodaeth y Senedd. |

| | |
|---|---|
| **RHEOL SEFYDLOG 12 – Busnes yn y Cyfarfodydd Llawn** | |
| Penderfyniadau ar Gynigion a Gwelliannau | Cadw'r is-bennawd |
| 12.44 Cyn i bleidlais gael ei chynnal, rhaid canu'r gloch os bydd o leiaf bum ~~dri~~ Aelod yn gofyn am hynny. Os oes pleidleisiau i'w cynnal yn syth ar ôl ei gilydd, ni fydd angen canu'r gloch fwy nag unwaith. Bum munud ar ôl i'r gloch ddechrau canu, rhaid cynnal y bleidlais neu'r pleidleisiau. | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br><br>Byddai'r newid arfaethedig yn cynyddu isafswm yr Aelodau sy'n ofynnol i ofyn bod y gloch yn cael ei chanu cyn i bleidlais yn y cyfarfod llawn gael ei chynnal i'w gwneud yn ofynnol bod rhaid caniatáu cais o'r fath. Mae'r cynnydd arfaethedig o dri i bum Aelod yn fras gymesur â'r cynnydd yn aelodaeth y Senedd. |
| **RHEOL SEFYDLOG 17 – Gweithredu Pwyllgorau** | |
| Ethol Cadeiryddion Pwyllgorau | Cadw'r is-bennawd |
| 17.2G Rhaid i enwebiad gael ei eilio gan aelod arall ~~gan grŵp gwleidyddol sydd â mwy nag 20 aelod gael ei eilio gan aelod o'r grŵp hwnnw~~. | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br><br>Byddai'r newid arfaethedig yn dileu'r trothwy sy'n ei gwneud yn ofynnol i enwebiadau cadeirydd pwyllgor ar gyfer Aelodau o grwpiau gwleidyddol sydd â mwy nag 20 aelod gael eu heilio. Y canlyniad fyddai y bydd angen |

| | |
|---|---|
| | eilio pob enwebiad cadeirydd pwyllgor.<br><br>Byddai hefyd yn dileu'r gofyniad bod rhaid i Aelodau sy'n eilio enwebiadau berthyn i'r un grŵp gwleidyddol â'r Aelod sy'n cael ei enwebu. Y canlyniad fyddai y gall enwebiad gael ei eilio gan Aelod sy'n aelod o unrhyw grŵp gwleidyddol, neu nad yw'n aelod o grŵp gwleidyddol. |
| **RHEOL SEFYDLOG 33 – Ail-wneud a Diwygio'r Rheolau Sefydlog, a'u Hatal Dros Dro** | |
| Ail-wneud a Diwygio'r Rheolau Sefydlog | Cadw'r is-bennawd |
| 33.1 Rhaid i'r Pwyllgor Busnes, o fewn amser rhesymol, ystyried unrhyw gynnig a wneir iddo gan o leiaf <u>ddeg</u> ~~chwe~~ Aelod i ail-wneud y Rheolau Sefydlog neu ddiwygio'r Rheolau Sefydlog, ac adrodd ar y cynnig hwnnw (a chaiff unrhyw ddiwygiad o'r fath fod yn ddiwygiad ar unrhyw Reol Sefydlog neu ran o Reol Sefydlog). | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br><br>Byddai'r newid arfaethedig yn cynyddu isafswm yr Aelodau sy'n ofynnol i wneud cynnig i ail-wneud neu ddiwygio Rheolau Sefydlog sy'n sbarduno'r gofyniad bod rhaid i'r Pwyllgor Busnes ystyried y cynnig ac adrodd arno. Mae'r cynnydd arfaethedig o chwech i ddeg Aelod yn fras gymesur â'r cynnydd yn aelodaeth y Senedd. |

# Atodiad B: Rheolau Sefydlog fel y'u diwygiwyd

**RHEOL SEFYDLOG 6 – Y Llywydd a'r Dirprwy**

Ymddiswyddiad neu Ddiswyddiad y Llywydd neu'r Dirprwy

6.26 Os caiff cynnig:

(i) y dylid diswyddo'r Llywydd; neu

(ii) y dylid diswyddo'r Dirprwy,

ei gyflwyno gan o leiaf ddeg ddeg Aelod, mae rhaid trefnu bod amser ar gael cyn gynted â phosibl i'r cynnig gael ei drafod; ac mae rhaid i'r ddadl honno gael ei chynnal beth bynnag o fewn pum diwrnod gwaith i'r cynnig gael ei gyflwyno.

**RHEOL SEFYDLOG 8 – Gweinidogion Cymru a Dirprwy Weinidogion Cymru**

Ymddiswyddiad etc. y Prif Weinidog neu Aelod arall o'r Llywodraeth

8.7 Os caiff cynnig nad oes gan Weinidogion Cymru hyder y Senedd mwyach ei gyflwyno gan o leiaf ddeg Aelod, mae rhaid trefnu bod amser ar gael cyn gynted â phosibl i'r cynnig gael ei drafod; ac mae rhaid i'r ddadl honno gael ei chynnal beth bynnag o fewn pum diwrnod gwaith i'r cynnig gael ei gyflwyno.

**RHEOL SEFYDLOG 10 –** Penodiadau etc. i Swydd Gyhoeddus

Diswyddo

10.8 Os cyflwynir cynnig i ddiswyddo deiliad swydd berthnasol gan o leiaf ddeg Aelod, rhaid trefnu bod amser ar gael cyn gynted â phosibl i'r cynnig gael ei drafod; a rhaid i'r ddadl honno gael ei chynnal beth bynnag o fewn pum diwrnod gwaith i'r cynnig gael ei gyflwyno.

**RHEOL SEFYDLOG 12 – Busnes yn y Cyfarfodydd Llawn**

Penderfyniadau ar Gynigion a Gwelliannau

12.44 Cyn i bleidlais gael ei chynnal, pan fydd o leiaf bum Aelod yn gofyn am hynny, rhaid canu'r gloch. Os oes pleidleisiau i'w cynnal yn syth ar ôl ei gilydd, ni fydd angen canu'r gloch fwy nag unwaith. Bum munud ar ôl i'r gloch ddechrau canu, rhaid cynnal y bleidlais neu'r pleidleisiau.

## RHEOL SEFYDLOG 17 – Gweithredu Pwyllgorau

### Ethol Cadeiryddion pwyllgor

17.2G Rhaid i enwebiad gael ei eilio gan aelod arall.

## RHEOL SEFYDLOG 33 – Ail-wneud a Diwygio'r Rheolau Sefydlog, a'u Hatal Dros Dro

### Ail-wneud a Diwygio'r Rheolau Sefydlog

33.1 Rhaid i'r Pwyllgor Busnes, o fewn amser rhesymol, ystyried unrhyw gynnig a wneir iddo gan o leiaf ddeg Aelod i ail-wneud y Rheolau Sefydlog neu ddiwygio'r Rheolau Sefydlog, ac adrodd ar y cynnig hwnnw (a chaiff unrhyw ddiwygiad o'r fath fod yn ddiwygiad ar unrhyw Reol Sefydlog neu ran o Reol Sefydlog).